Ailfywiogi'n Cymunedau Conwy'n Ganolbwynt Gogledd Cymru

Cynllun Corfforaethol 2008-2012

Byddwn Wedi Llwyddo Os Ydych o'r Farn:

- Bod ein gwasanaethau'n canolbwyntio arnoch chi a'u bod yn rhwydd i'w cael. Dylech allu cysylltu â ni'n rhwydd pan fo'n gyfleus i chi - boed wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu anfon neges destun neu neges e-bost, neu ar y we. Bydd cyfle i chi ddweud eich dweud, a lle bo hynny'n bosibl bydd gwasanaethau'n cael e haddasu i ddiwallu anghenion presennol. Byddwn bob amser yn dweud wrthych chi os na fyddwn yn gallu diwallu eich anghenion.
- Bod ein gwasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn seiliedig ar angen lleol a lle bo modd, maent yn cael eu darparu'n lleol hefyd. Mae'r gwasanaethau hynny'n atebol i chi a'r gymuned rydych yn byw ynddi. Byddwn yn eich cefnogi i wneud eich cymuned yn lle y gallwch fod yn falch ohoni.
- Ein bod wedi gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg i ddiweddaru'r ffordd rydym yn gweithio a lleihau'n defnydd o bapur.
- Bod gan ein pobl y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ganolbwyntio ar eich anghenion.
- Mae gennym arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol glir, llwybrau gyrfaoedd clir a rhaglenni hyfforddi a anelwyd at ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Rydych yn gwybod pwy yw eich Cynghorwyr a sut a ble i gysylltu â nhw, a sut gallant eich helpu.

Ym mis Ionawr 2012 byddwn yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r ffordd rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i'n cymunedau fel sydd wedi ei nodi yn y cynllun hwn a beth fydd eich prif broblemau pryd hynny.

Cynllun Corfforaethol yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol

■ Y Cynghorydd Dilwyn Roberts Arweinydd

■ Bethan Jones, Prif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Corfforaethol - Gwella a Datblygiad

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy'n lle gwych i fyw a gweithio ynddi, yn ogystal ag ymweld â hi. Ond mae cryn her yn ein hwynebu. Mae'n poblogaeth yn heneiddio ac mae'n pobl ifanc yn gadael y sir. Ychydig o swyddi sy'n talu'n dda sydd gennym yma ac mae tai'n ddrud, o'u cymharu â'n cyfartaledd incwm.

Mae rhan fwyaf o'n poblogaeth yn byw ar hyd yr arfordir, a phrin yw'r cyfle i gael swyddi ac ychydig o dai fforddiadwy sydd ar gael yng nghefn gwlad, Felly, does ryfedd mai ychydig o blant sy'n chwarae gemau ar fuarthau ein hysgolion gwledig. Er bod yr A55 wedi gwella teithio a chyfathrebu'n sylweddol, cafodd effaith negyddol ar nifer o'n cymunedau ac mae angen ychydig o gymorth ar sawl pentref a thref, i wella'u cyfleusterau a'u gwasanaethau. Ein her felly yw cydweithio ag eraill i fanteisio ar leoliad Conwy yng nghanol Gogledd Cymru ac ailfywhau'n cymunedau fel eu bod yn gallu cymryd rhan weithredol i wneud y sir yn lle hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddi, yn ogystal ag ymweld â hi.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar y pethau pwysig am y pedair blynedd nesaf – sef y meysydd hynny rydych chi wedi dweud wrthym sydd angen eu newid a'u gwella, a lle dylem fuddsoddi ein hadnoddau os ydym am wneud gwahaniaeth. Mae'r Cynllun felly'n nodi'r hyn fyddwn yn ei wneud am y pedair blynedd nesaf. Bydd ein Cynllun Datblygu Lleol yn sail i'r Cynllun Corfforaethol, drwy nodi ardaloedd sy'n addas ar gyfer tai, busnes a hamdden.

Mae adnoddau bob amser yn brin ac yn y byd economaidd presennol mae'n rhaid i ni barhau i fod yn hyblyg a bod yn barod i wneud pethau'n wahanol. Byddwn yn edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud eisoes, i weld a oes eu hangen, neu a oes ffordd well o'u cyflawni. Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, gan gynnwys arian Ewrop, pan fydd yn ein helpu i gyflawni'n blaenoriaethau. Byddwn yn gwneud arbedion effeithlonrwydd blwyddyn ar ôl blwyddyn a chydweithio â'n partneriaid. Byddwn yn defnyddio'n staff, ein hamser a'n harian i ddarparu gwasanaethau safon uchel, a gwneud hynny'n fwy effeithiol. Ein nod yw cadw ein Treth y Cyngor ymysg yr isaf yng Nghymru.

Yr Hyn Rydym yn ei Wneud Bob Dydd

Mae'r hyn rydym yn ei wneud bob dydd yn rhan bwysig o fywydau pobl, a byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny - dysgu eich plant, darparu gofal a help i'r bobl fwyaf diamddiffyn a'u gofalwyr yn ein cymunedau, galluogi pobl i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a diogelu pobl rhag niwed, boed yn cam-drin, camddefnyddio sylweddau, atal damweiniau neu sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau rydych yn eu prynu'n ddiogel ac yn addas ar gyfer oed y defnyddiwr. Byddwn yn parhau i helpu pobl i aros yn iach trwy ddarparu canolfannau hamdden a phyllau nofio, annog pobl i gerdded a beicio, a sicrhau bod ein hysgolion yn cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach. Byddwn yn gwarchod a hyrwyddo eich diwylliant a'ch treftadaeth trwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfod yr Urdd ac amgueddfeydd a darparu gwasanaethau i chi eu mwynhau yn ystod eich oriau hamdden fel theatrau a llyfrgelloedd. Rydym hefyd yn darparu nifer o gyfleusterau lleol a sylfaenol fel toiledau cyhoeddus a meysydd parcio, parciau a llwybrau troed, ffyrdd a goleuadau stryd.

Gyda'i gilydd mae'r camau hyn wedi'u cynllunio i gadw pawb yn ddiogel ac yn iach ac mae cymorth ychwanegol ar gael i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, i sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal i gael bywyd llawn.

Conwy yn Ganolbwynt i Ogledd Cymru

Yng Nghonwy, rydym yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gennym arfordir gwych, mynyddoedd mawreddog a dyffrynnoedd hardd. Mae gennym gysylltiadau trên a ffyrdd ardderchog a threftadaeth a hanes cyfoethog - o dref Conwy a'i chastell y drydedd ganrif ar ddeg, sydd ymhlith y gorau yn Ewrop ac yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, i Lanrwst a enillodd wobr Gymdeithas Adfywio Trefol Prydain am ei threflun, ac at dreftadaeth Fictoraidd Llandudno - 'Brenhines Trefi Glan Môr Cymru'. Mae hyn yn gyfle gwych i ni ddangos pa mor falch rydym o'n treftadaeth Gymreig a'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Mae'n rhaid i ni ymelwa ar y fantais hon i ddatblygu ein heconomi a bod yn ganolbwynt i Ogledd Cymru.

Dyma rai o'r ffyrdd rydym yn bwriadu cyflawni hyn:

- Sicrhau ein bod yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a dysgu hanes Cymru i'n plant, fel bod eu haddysg yma'n eu gwneud yn falch o'u treftadaeth a'u Cymreictod - a'u bod hefyd yn falch o gael rhannu hyn gyda'u teuluoedd, eu cymunedau a phobl sy'n ymweld â'r ardal.
- Manteisio ar ein lleoliad canolog yng Ngogledd Cymru i ddatblygu Conwy fel canolbwynt rhagoriaeth ar gyfer chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol. Bydd hynny'n annog pobl i ymweld â ni a darparu cyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol.
- Manteisio ar Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i Gyffordd Llandudno, i ddatblygu'r Fwrdeistref Sirol fel canolbwynt gweinyddol / gwleidyddol. Trafod gyda'r Cynulliad i ganfod beth yw eu hanghenion a dechrau cynllunio rŵan – adfywio'r ardal, gwella'r system gludiant, gwella sgiliau'r gweithlu i lenwi'r bylchau a ganfuwyd a phennu anghenion o ran tai.
- Llunio cynllun twristiaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol i gyd, sy'n hyrwyddo ac sy'n gwneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, y cyfleusterau sydd gennym a'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith, mewn dull wedi ei gydlynu.
- Gweithio gyda'n partneriaid a'r sector busnes yn rhanbarthol ac yn isranbarthol, i ddatblygu'r prif feysydd busnes sy'n ategu busnesau ein cymdogion, a sicrhau bod gennym economi leol amrywiol a chytbwys er mwyn adfywio cymunedau a chynnig swyddi o safon dda a fydd yn ein helpu i gadw'n pobl iau yn yr ardal.

Ailfywiogi'n Cymunedau

Ein prif amcan yw ailfywhau ein cymunedau er mwyn i'w trigolion fod yn falch ohonynt. Mae'r ymrwymiadau hyn yn canolbwyntio ar:

- **Pobl – chi, ein cwsmeriaid.**
- **Lleoedd – y cymunedau rydych yn byw ynddynt.**
- **Partneriaethau – pan na fyddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth ar ein pen ein hunain a bod angen cydweithio ag eraill.**

Felly, yn ystod y pedair blynedd nesaf ein 12 prif ymrwymiad i chi fydd:

1. Os ydych yn **hŷn**, byddwn yn eich helpu i gynnal eich annibyniaeth ac i gadw'ch lle yn y gymuned, trwy greu cynlluniau tai â gofal ychwanegol yn Llanfairfechan, Llanrwst, Llandudno ac Abergele a defnyddio technoleg newydd i'r eithaf, fel 'Telecare' i'ch helpu i allu aros yn eich cartref eich hun. Trwy weithio gyda phlant a phobl ifanc, byddwn yn llunio rhaglen o brosiectau pontio'r cenedlaethau i hyrwyddo dealltwriaeth rhyngddynt a chreu gwell ymdeimlad o gymdeithas a bod yn perthyn i gymuned.

2. Byddwn yn sicrhau bod ein **plant** yn cael yr addysg orau a'r dechrau gorau'n gymdeithasol. Byddwn yn gweithredu rhaglen moderneiddio ysgolion cynradd, a fydd yn ymchwilio i safonau addysgol; ydy ein hadeiladau a'n hoffer yn addas i'w pwrpas; lleoedd gwag a pha mor rhwydd yw cael adnoddau. Byddwn hefyd yn cydweithio ag ysgolion i ganfod lle gallwn eu gwella, a'u helpu i wella safon y dysgu, cyraeddiadau a phresenoldeb, gan adeiladu ar dalentau pobl ifanc. Byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, yn ogystal â'r rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, a'r rhai sy'n ei gadael, i'w galluogi i chwarae rhan lawn yn ein cymdeithas.

3. Byddwn yn adolygu ansawdd ein **hamgylchedd** a strydwedd ein cymunedau, gan lunio rhaglen wella. Byddwn hefyd yn sefydlu tîm partneriaeth 'Ymateb Cyflym / Gorfodaeth i ddelio â sbwriel, graffiti a thipio sbwriel yn anghyfreithlon, i sicrhau bod pobl yn falch o'u cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys creu cynllun Gwobr 'Balch o'n Lle' neu gynllun Gwobr Cymunedol arall i gydnabod y cymunedau hynny sy'n gofalu am eu hamgylchedd lleol eu hunain. Defnyddir ein pwerau cyfreithlon yn llymach i sicrhau bod eiddo sydd wedi mynd a'i ben iddo ac wedi'i esgeuluso'n cael ei gynnal a'i gadw.

4. Byddwn yn cynyddu nifer y **gerddi ar osod** sydd ar gael mewn cymunedau i'ch annog i dyfu eich bwyd eich hun. Mae hynny'n dda i'r amgylchedd, ac mae'n cynyddu'r cyfle i gymdeithasu, gan helpu i arbed arian a helpu pobl, waeth beth fo'u hoed, i fwyta'n iachach a gwneud rhagor o weithgareddau corfforol.

5. Gan weithio gyda chymdeithasau tai a datblygwyr tai, byddwn yn creu atebion **tai fforddiadwy** ar gyfer pobl leol. Er enghraifft, erbyn 2012 byddwn yn cydweithio â landlordiaid i sicrhau bod o leiaf 100 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto, a byddwn yn cynnig cynlluniau cymorth prynu i helpu pobl i brynu eu cartrefi yn eu cymunedau eu hunain. Ar ddatblygiadau tai gyda rhagor na 2 dŷ, bydd o leiaf 50% ohonynt yn dai fforddiadwy. Mewn rhai achosion lle ceir cynnydd yn y galw lleol, byddwn yn ystyried adeiladu hyd at 100% o gartrefi fforddiadwy. Disgwylir i ddatblygwyr gyfrannu tuag at wella neu greu cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau lleol i ddiwallu'r angen sy'n deillio o'u datblygiad. Byddwn hefyd yn ceisio creu prosiect arbrofol i helpu cynlluniau hunan adeiladu - yn enwedig edrych ar y tir sydd ar gael, cefnogi systemau rheoli prosiectau, ac ariannu'r isadeiledd dechreuol.

6. Fel Cyngor, byddwn yn cydweithio â busnesau lleol i ganfod bylchau mewn **sgiliau**. Byddwn wedyn yn helpu pobl i wella'u sgiliau a chael gwaith, fel eu bod yn llai dibynnol ar fudd-daliadau diweithdra, a'u bod yn gwella'u lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â chynyddu eu hincwm gwario. I wneud hyn, byddwn yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol fel prosiectau'r Gwasanaeth Ieuenctid, y Cadlanciau, Cynllun Dug Caeredin, y Ffermwyr Ifanc, y Geidiau a'r Sgowtiaid ac Urdd Gobaith Cymru; gan weithio gyda Choleg Llandrillo i ddarparu 90 lle ar brofiad gwaith i fyfyrwyr lleol, a bod yn rhagweithiol wrth ddarparu profiad gwaith i fyfyrwyr Blwyddyn 11, pobl ag anableddau a phobl sy'n ddi-waith. Byddwn hefyd yn cynnig o leiaf 30 prentisiaeth i bobl ifanc leol a chynllun gwahanol i annog gweithwyr hŷn i weithio'n hirach. Lle bo modd gwneud hynny, bydd ein harian cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yn yr economi leol i sicrhau ei fod yn cefnogi'r rhaglen datblygu sgiliau.

7. Fel sefydliad, byddwn yn arwain y ffordd i sicrhau ein bod yn cyfrannu tuag at **ddyfodol cynaliadwy** gan weithio i gyflawni safon y Ddraig Werdd ac estyn ein cynllun ailgylchu o ymyl palmant i gynnwys gwastraff bwyd, plastig a chardbord y gegin. Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu canolfan gwybodaeth amgylcheddol a fydd yn cynnwys enghreifftiau o dechnoleg newydd ac a fydd yn rhoi cyngor i chi sut i fod yn wyrddach. Bydd hefyd yn cyfrannu at ostwng ôl troed carbon ein cymunedau, a bod yn ganolfan addysgol ac i ymwelwyr hefyd.

8. Bydd darpariaeth **Hamdden a Diwylliant** pob ardal yn cael ei hadolygu a byddwn yn cefnogi'r clybiau, grwpiau a phrosiectau hynny sy'n hyrwyddo gweithgareddau corfforol a dulliau iach o fyw. Enghraifft o hynny yw'r cynllun sy'n cael ei gynnal bob dydd Sadwrn yng Nghanolfan Hamdden Colwyn i hybu gweithgareddau corfforol mewn amgylchfyd cymdeithasol ar gyfer pobl dros 50 oed. Byddwn yn cefnogi rhieni sydd â phlant dan 5 oed, i fwyta'n iachach ac i symud o gwmpas rhagor. Bydd rhagor o raglenni gweithgareddau corfforol yn cael eu darparu, fel y cynllun Ymarfer Corff ar Bresgripsiwn, a'r Ganolfan Iechyd, a fydd yn eich helpu os oes gennych gyflyrau cronig neu anableddau, er mwyn i chi allu rheoli eich cyflwr eich hun. Mae cadw pobl yn ddiogel wrth iddynt fwynhau eu hamser hamdden hefyd yn flaenoriaeth. Byddwn yn darparu a hybu Strategaeth ' Economi Noson Hwyr' mewn partneriaeth gyda Sir Ddinbych. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn ddiogel pan fyddant allan yn ystod y nos, wrth iddynt deithio adref ac wrth gyrraedd adref.

9. Byddwn yn diweddaru'n dulliau gweithio ac yn gwneud ein **gwasanaethau yn haws i'w cael** trwy sicrhau bod y wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gael mewn un lle, boed hynny mewn 'Siop un Stop', dros y ffôn, neu'n electronig, er enghraifft, ar y wefan. Gan gydweithio â'n partneriaid, byddwn yn trafod materion gyda chi wrth ddechrau cynllunio newidiadau i'n gwasanaethau a'r hyn sy'n bwysig i chi'n lleol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, a fydd yn cynyddu gwybodaeth am yr hyn mae'r Cyngor yn ei gyflawni, a'i gyflwyno i chi mewn 5 sioe lôn 'Cyfarfod eich Cyngor' ledled y Fwrdeistref Sirol.

10. Byddwn yn gweithio gyda **busnesau** i sefydlu Fforwm Busnes ac yna'n llunio pecyn o gamau i helpu busnesau mewn ardaloedd sydd angen eu hadfywio. Bydd hyn efallai'n cynnwys cynllun trethi gostyngol mewn ardaloedd lle ceir gwir angen. Byddwn hefyd yn creu cynllun parcio sy'n helpu trigolion lleol a busnesau.

11. Byddwn yn trafod y tebygolrwydd o **lifogydd ac erydiad yr arfordir** a goblygiadau hynny, gyda'n cymunedau, gan weithio i geisio deall a rheoli'r hyn maent yn ei ddisgwyl gennym. Byddwn hefyd yn eu helpu i baratoi ar gyfer llifogydd ac i leihau canlyniadau digwyddiadau, gan adfer y sefyllfa cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid yn lleol a ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn gwybod am broblemau newid hinsawdd, ac yn enwedig risg llifogydd ac erydiad yr arfordir, er mwyn i ni ddeall beth yw ein swyddogaeth ni, a'n bod yn cydweithio i ddylanwadu ar Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu systemau i'n helpu i reoli'r risg hwn.

12. Byddwn yn sicrhau bod diogelwch ac effeithiolrwydd pob dull **cludiant** yn cael ei wella a'n bod yn delio ag eithrio cymdeithasol, gan sicrhau bod gwaith, addysg, iechyd a gwasanaethau i bob cymuned yn haws i'w cael. Byddwn yn gwneud hyn trwy wella safon ac argaeledd yr isadeiledd cludiant a chludiant cyhoeddus. Byddwn yn cydweithio â gweithredwyr cludiant i ganfod a chreu llwybrau teithio uniongyrchol. Byddwn yn archwilio ein darpariaeth cludiant lleol gan sicrhau ei bod wedi ei chydlynu a bod ysgolion yn cael help i lunio eu cynlluniau cludiant eu hunain, a fydd yn cynnwys 'Llwybrau Diogelach i'r Ysgol. Cyflawnir hyn trwy gydweithio â'n partneriaid ledled Gogledd Cymru i weithredu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol.

Fel Cyngor, mae'n rhaid i ni ymateb i'ch disgwyliadau cynyddol am wasanaethau o safon uchel a sut fyddwch yn derbyn y gwasanaethau hyn. Mae'n rhaid i ni ymateb hefyd i'r newid yng nghyfansoddiad ein poblogaeth, fel y cynnydd yn nifer y bobl hŷn a'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn ein hysgolion. Ni allwn wneud pob peth ar ein pennau ein hunain, ac felly, trwy gydweithio â'n partneriaid - statudol, gwirfoddol, y sector annibynnol, cynghorau cymunedol, cynghorau tref, grwpiau cymunedol eraill, yn ogystal â chi fel unigolyn, byddwn yn ymateb i'r her i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion newidiol dros y pedair blynedd nesaf.

Ein Safonau

I gyflawni hyn byddwn yn canolbwyntio mwy arnoch chi, ein cwsmeriaid. Byddwn yn treulio amser yn gwrando arnoch a chanfod yr hyn sy'n bwysig i chi a'r cymunedau rydych yn byw ynddynt. Byddwn yn eich cynnwys wrth lunio a darparu'n gwasanaethau, a'ch annog i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd. Gan gydweithio â'n partneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, byddwn yn canfod lle gallwn gydweithio'n well i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl a sicrhau eich bod yn cael dewis y math o wasanaethau rydych yn eu derbyn a'r dull o'u darparu.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod o leiaf 50% o gartrefi pob datblygiad newydd yn fforddiadwy.
- Gwneud ein hadeiladau newydd a phob adeilad rydym yn ei adnewyddu mor 'wyrdd' â phosibl, gan gynnwys nodweddion effeithiolrwydd ynni, arbed / ailgylchu dŵr, ynni adnewyddadwy a chyfleusterau ailgylchu.
- Anfon Bwletin Conwy at bawb sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol 4 gwaith y flwyddyn.
- Darparu asesiad gofal i bob gofalwr anffurfiol yng Nghonwy sy'n gofyn am hynny.
- Cyflawni safonau ein Siarter Cwsmeriaid.
- Cynnal 'Cyfarfod eich Cyngor' mewn 5 ardal ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Clustnodi o leiaf £1 miliwn bob blwyddyn ar gyfer adfywio cymunedau.
- Sicrhau ei fod yn bosibl i'ch plentyn gymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Iach, os yw'n mynychu ysgol yng Nghonwy.

Gweithredu

Er mwyn cyflawni dyheadau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol hwn, ac felly cyflawni'r rhan o'r Strategaeth Gymunedol rydym yn gyfrifol amdani, bydd rhaid i ni sicrhau bod ein staff a'n cynghorwyr i gyd yn cael cymorth i gydweithio fel tîm i ddarparu'r gwasanaethau sy'n diwallu eich anghenion, a'u bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt a'r hyn bydd rhaid iddynt ei ddarparu.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni hyn trwy gynnwys blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol mewn Cynlluniau Gwasanaethau 3 Blynedd, a fydd yn grynodeb o'r hyn byddwn yn ei wneud. Byddwn hefyd yn creu Cynlluniau Gweithredu Blynyddol, sy'n cynnwys camau gweithredu manylach a Chynlluniau Unigol y bydd yn rhaid i bob gweithiwr nodi sut byddant yn cyfrannu fel unigolyn i'r darlun ehangach.

Bob blwyddyn, byddwn yn rhoi gwybod am ein cynnydd ac a ydym wedi cyflawni'r hyn y bwriadwyd ei wneud gennym, sef – gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Conwy.

Cyswllt:

Ffôn: 01492 574000

e-bost: gwybodaeth@conwy.gov.uk

Gwefan:
www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol